Cyfrannu rhodd

Rhowch beth bynnag a allwch os gwelwch yn dda…

Ar-lein: www.justgiving.com/chfw

Dros y ffôn: 029 2033 5016

Drwy'r post: Rhwygwch y slip hwn a'i anfon gyda'ch siec yn daladwy i 'Apêl Arch Noa' i: Apêl Arch Noa, Ysbyty Brenhinol Caerdydd, Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0SZ. Rwy'n drethdalwr yn y DU ac yn dymuno i'r elusen hawlio ad-daliad treth ar y rhodd, heb gost i mi ☐

Mae gen i ddiddordeb mewn (ticiwch)

☐ Dod yn Byti drwy wneud cyfraniad ariannol rheolaidd o £….. yn fisol/yn flynyddol (dileer fel yn addas)

☐ Gwirfoddoli i helpu yn siop Apêl Arch Noa / digwyddiadau codi arian / y swyddfa (dileer fel yn addas)

☐ Gwirfoddoli cymunedol

☐ Cyfranogi mewn digwyddiadau tramor heriol

☐ Trefnu digwyddiad codi arian

☐ Tynnu fy nghwmni i mewn

☐ Ailgylchu

A fyddech cystal ag anfon fwy o wybodaeth ataf:

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

_____

Cod Post: _____

Ffôn: _____

E-bost: _____

Rydym yn cymryd yn ganiataol eich bod, drwy lenwi a dychwelyd y ffurflen hon, yn hapus i dderbyn gohebiaeth gan Apêl Arch Noa.

Os nad ydych am dderbyn gohebiaeth drwy e-bost/ post (dileer fel yn addas), ticiwch yma ☐

DIOLCH I CHI

Dewch yn rhan o Apêl Arch Noa

Cyfrannu Arian - mae pob ceiniog yn cyfri, gwelwch y ddalen 'Cyfrannu rhodd' ynglŷn â sut i gyfrannu ar-lein, ffôn neu bost

Dod yn Byti - cyfrannwch yn rheolaidd drwy orchymyn sefydlog/debyd uniongyrchol

Cyfrannu Rhestr Cyflogi - rhoi yn rheolaidd, yn ddi-dreth -holwch yn y gwaith.

Digwyddiadau Codi Arian - mae trefnu digwyddiad yn ffordd wych o godi arian a chael hwyl

Tynnu'ch Cwmni i Mewn - enwch ni yn 'Elusen y Flwyddyn' neu greu partneriaeth strategol

Gwirfoddoli - gall eich amser wneud arian i ni

Gwirfoddoli Cymunedol - helpwch ni i ledaenu'r neges yn eich ardal

Ailgylchu - trowch nwyddau diangen yn arian

Cronfa Goffa - ffordd arbennig i gofio anwylyd

Rhodd Er Cof - cofiwch anwylyd wrth gyfrannu i'n gwaith

Rhodd i Ddathlu - beth bynnag yw'r dathliad, beth am ofyn i wahoddedigion gyfrannu rhoddion yn lle anrhegion.

Cymynrodd - mae rhodd yn eich ewyllys yn gymynrodd barhaol

Ein Siopau - prynwch yn ein siop yn yr ysbyty neu yn ein siop ar-lein.

ebay - codwch arian wrth brynu a gwerthu

Rhodd Unfath - dyw ein cefnogi ddim yn costio arian drwy 'rodd unfath'

Gift Aid - gallwn hawlio ad-daliad treth ar eich rhodd os ydych yn drethdalwr yn y DU

www.timto.co.uk - crëwch restrau deisyf pen-blwydd a chodi arian

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Swyddfa'r Apêl ar 029 2033 5016 neu enquiries@noahs-ark-appeal.org

Registered Charity No. 1069485

Helpwch ni i gwblhau Ysbyty Plant Cymru

Apêl Arch Noa
elusen swyddogol Ysbyty Plant Cymru

Yr Apêl

Mae Apêl Arch Noa yn bod i adeiladu, darparu cyfarpar phara i gefnogi Ysbyty Plant Cymru.

Ers ein lansio yn 2000 rydym wedi casglu sawl miliwn drwy gefnogaeth enfawr y cyhoedd. Gyda'n gilydd fe adeiladom ni Cam Un yr Ysbyty Plant cyntaf erioed ar gyfer Cymru, adnodd lliwgar a chyfeillgar sy'n trin plant a chyflyrau meddygol a phlant gyda chanser. Rydym hefyd wedi darparu cyllid i allu adeiladu'r uned ymddiriedolaeth canser gyntaf i'r arddegau a rhoi cannoedd o filoedd i gyflenwi offer newydd.

Erbyn hyn cytunwyd ar y cyllid i adeiladu a chynnal Cam Dau, ond nid brics yn unig sy'n codi ysbyty plant o safon fyd-eang. Bydd Cam Dau yn gofyn am yr offer diweddara sy'n hanfodol i drin cleifion ifanc.

Yr Ysbyty

Yn Ysbyty Plant Cymru cyflawnir gwaith rhyfeddol bob dydd gan dîm meddygol o'r radd flaenaf ynghyd a phawb tu ôl i'r llenni. Dyluniwyd yr adeilad golau, llachar â lliwgar yn benodol er mwyn plant a'u teuluoedd, i sicrhau bod y profiad o fod mewn ysbyty mor gyfforddus a chefnogol â phosib.

Ers agor y drysau ym 2005 mae miloedd o blant ledled Cymru sydd angen triniaeth arbenigol a gofal canser yn cael eu trin bob blwyddyn. Cam Dau fydd yn sicrhau bod plant sy angen llawfeddygaeth a gofal dwys yn cael yr un cyfleusterau o'r radd flaenaf.

Bydd Cam Dau yn cynnwys:

- 5 theatr llawdriniaeth plant
- Uned gofal critigol newydd - gan gynnwys gofal dwys a dibyniaeth uchel
- Wardiau newydd sbon ar gyfer plant sydd angen llawfeddygaeth
- Adran cleifion allanol ac ystafelloedd deintyddol
- Caffi cleifion allanol
- Canolfannau asesu
- Ystafelloedd therapïau



Gyda'ch help chi, bydd Apêl Arch Noa yn casglu £7m yn ychwanegol ar gyfer Ysbyty Plant Cymru.

Bydd ein targed o £7m yn caniatáu i ni gyllido nifer o brosiectau allweddol i Cam Dau. Bydd hyn yn cynnwys:

- 'Sganiwr MRI agored'
- Cyfarpar ar gyfer uned gofal critigol pediatrig
- Pwll hydrotherapi
- Gardd wedi'i hamgylchynu ar gyfer hamdden, therapi, addysg ac adferiad
- 2 'theatr y dyfodol'

Mae Apêl Arch Noa yn dibynnu ar garedigrwydd ei chefnogwyr. Bu Cam Un yn gamp ardderchog na fyddai wedi bod yn bosib heb eich cyfraniadau chi.

Nawr mae'r gwaith i'w barhau ac rydym angen eich cymorth o hyd. Mae pob rhodd, pob digwyddiad codi arian, pob awr o wirfoddoli yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr a'n dwyn yn nes at wireddu ein breuddwyd o gwblhau Ysbyty Plant Cymru.

The NOAH'S ARK Appeal
CHILDREN'S HOSPITAL FOR WALES

FSB
FUNDRAISING STANDARDS BOARD

Children's Hospital for Wales
Ysbyty Plant Cymru